Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy Zoom
nos Lun, 5 Gorffennaf 2021 am **7:45p.m.**

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Ken Hawkins, Ian Lewney, Ifan Wyn, Heather Williams, Robert Owen Ellis, Ethan Jones a Menna Jones.

10. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni chafwyd ymddiheuriadau

11. DATGAN BUDDIANNAU
Cynghorwyr Robert Owen-Ellis ac Ifan Wyn mewn perthynas â chais ar gyfer 25 Bro Deg

12. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Nodwyd gwall teipio yn item 5 y cyfarfod blaenorol. Y Dirprwy Glerc i'w gywiro.
PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021 yn gofnod cywir.*

13. MATERION YN CODI
Nid oedd materion yn codi

14. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Roedd y Dirprwy Glerc wedi dosbarthu penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r agenda.

15. CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.
PENDERFYNWYD*: nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau a ganlyn:*

02/2021/0647 – Ysgol Rhuthun, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun
Gosod adeiladau symudol i'w defnyddio fel ystafelloedd dysgu dros dro.
Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais cynllunio ond holwyd pa mor hir fyddai'r cyfnod dros dro, o ystyried y caniatâd dros dro.

02/2021/0576 – 1 Stryd y Prior, Rhuthun
Newid defnydd fflat llawr gwaelod yn fwyty (Dosbarth A3) (cais Adeilad Rhestredig)
Dim gwrthwynebiad.

02/2021/0464 - 25 Bro Deg Rhuthun
Codi estyniad dau lawr i ochr yr eiddo ac estyniad llawr cyntaf i'r blaen.
Dim gwrthwynebiad.

02/2021/0589 - 139 Stryd Mwrog, Rhuthun
Gosod blwch nwy o'r prif gyflenwad o flaen yr eiddo (cais Adeilad Rhestredig)
Dim gwrthwynebiad

02/2021/0612 - The Patchwork Traditional Food Company, Llys Parcwr Ffordd Celyn, Parc Busnes Lôn Parcwr, Rhuthun
Codi estyniad storio i'r uned cynhyrchu bwyd
Dim gwrthwynebiad

113. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai nos Lun, 13 Medi 2021 am 7.45pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*